Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 06.01.2021

## Cronfa Cymorth Penodol i'r Sector yr ERF yn agor 11 Ionawr 2021

Mae pecyn Cymorth Penodol i'r Sector (cost gweithredu) wedi'i dargedu at fusnesau Lletygarwch, Twristiaeth a Hamdden neu gwmnïau cadwyn gyflenwi sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol, gyda gostyngiad mewn trosiant o fwy na 60% o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Bydd yn rhaid i fusnesau cymwys gyflogi staff drwy PAYE, a naill ai wedi cofrestru ar gyfer TAW neu (wedi'u heithrio rhag TAW) gyda throsiant o fwy na £85,000, neu gwmnïau cyfyngedig sydd â throsiant o fwy na £50,000. Gall busnesau cymwys, sydd wedi defnyddio'r Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud, hefyd wneud cais i'r gronfa hon.

Bydd y gronfa'n agor i geisiadau ar yr wythnos sy'n dechrau ar 11 Ionawr 2021, ac mae gwiriwr cymhwystra a chyfrifiannell yn fyw ar wefan Busnes Cymru i helpu busnesau i gyfrifo faint o gymorth y gallant ddisgwyl ei dderbyn. Ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/sectorspecificgrant/cy

# NEGES I DDARPARWYR LLETY: Cais am Lety

Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn am help i ddarparu llety dros dro i bobl sydd yn wynebu digartrefedd. Mae’r pandemig Covid wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer o bobl yng Ngwynedd sydd yn wynebu digartrefedd, ac mae gofyn statudol a moesol ar Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod Lleol, i ddarparu llety iddynt. Bydd costau llety yn cael ei dalu yn uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd, a bydd y Cyngor hefyd yn darparu cefnogaeth ar gyfer yr unigolion. Os ydi unrhyw un eisiau helpu, neu eisiau rhagor o wybodaeth, cysylltwch drwy ffonio 01286 682785 i drafod, neu e-bostio: MA2312@gwynedd.llyw.cymru.

# Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Bwyd)

Mae’r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – BWYD yn gynllun buddsoddiadau cyfalaf i gefnogi prosiectau sy’n cynnig manteision clir a mesuradwy i’r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae’r cynllun gwerth £3.2m yn agored i broseswyr a gweithgynhyrchwyr bwyd a diod bach micro a newydd ledled Cymru. Bydd y Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – BWYD yn agor ar 18 Ionawr 2021 ac yn cau ar 22 Chwefror 2021. Ewch i:

https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-i-2020-dyddiadau-ymgeisio

# Datganiad i’r Wasg CThEm: Dyddiad cau Hunanasesu – llai na mis i fynd

Mae CThEM wedi cyhoeddi datganiad i’r wasg yn annog cwsmeriaid Hunanasesiad i ffeilio eu ffurflenni treth cyn y dyddiad cau ar 31 Ionawr 2021. Ewch i:

http://bit.ly/3pYreaN

# Network Rail: Buddsoddiad Llinell y Cambrian

Bydd y rheilffordd rhwng Porthmadog a Minffordd yn cau o 13 Chwefror 2021 hyd at 21 Chwefror 2021 er mwyn i Network Rail ddechrau ar y gwaith o adnewyddu Traphont Traeth Mawr, sy’n cysylltu Porthmadog a Minffordd dros

afon Glaslyn. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu gwasanaethau bysiau yn lle trenau rhwng Porthmadog a Harlech yn ystod y gwaith. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3nkZaMQ

## Cyfleoedd Gogledd Cymru 21 Ionawr 2021

Ymunwch â Gyrfa Cymru ar gyfer Cyfleoedd Gogledd Cymru, digwyddiad ar-lein am ddim ar 21 Ionawr 2021, o 10:00am – 12:00pm, ble y byddan nhw a phartneriaid a chyflogwyr ledled Gogledd Cymru yn dod at ei gilydd i arddangos y swyddi a'r cyfleoedd sydd ar gael ledled y rhanbarth. Cefnogir y rhith-ddigwyddiad yma gan Cymru'n Gweithio, Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau (Canolfan Byd Gwaith), Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Yn ystod y digwyddiad, cewch bori drwy'r swyddi gwag a gwylio fideos ar gais gan gyflogwyr lleol a fydd yn esbonio mwy am y swyddi. Bydd cyfle i chi drafod unrhyw gwestiynau sydd gennych â'r cyflogwyr yn uniongyrchol drwy ddefnyddio'r cyfleuster sgwrs fyw. Yn ogystal â swyddi gwag, rhoddir gwybodaeth hefyd am brentisiaethau, hyfforddiant a chymorth cyflogadwyedd a gallwch ganfod sut y gall y rhain fod o fudd i chi. I gofrestru am y digwyddiad am ddim yma, ewch i:

https://learnliveuk.com/cyfleoedd-gogledd-cymru-opportunity-north-wales/

## Trawsnewid Cynaliadwy – pontio'r bwlch rhwng digidol a dynol 20 Ionawr 2021

Un o'r cwestiynau mwyaf cyffredin yw, "Pam mae mentrau trawsnewid digidol yn methu?" Ymunwch â'r digwyddiad Canolfan Cydweithredol Cymru hwn ar 20 Ionawr 2021, o 10:00am – 11:00am, i gael gwybod mwy am yr elfennau gwahanol mewn trawsnewid llwyddiannus, ynghyd ag un o'r rhesymau mwyaf dros fethu: pobl a'u hymateb i newid. Nid yw trawsnewid digidol yn brosiect, fel y cyfryw, ond yn newid diwylliant ac, fel pob newid arall, mae'n ymwneud â phobl yn bennaf, yn hytrach na thechnoleg. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/3ooNiLe

- Nodyn: Bydd y sesiwn hon yn cael ei chynnal ar Remo – gofod newydd ar gyfer digwyddiadau rhithwir fyw a rhwydweithio. I ddarganfod mwy, ewch i: https://remo.co/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru